

# Cyngor Tref Caerfyrddin Carmarthen Town Council



## CADWCH YN DDIOGEL – PRYNWCH YN LLEOL



### PARATOADAU AILAGOR COVID-19

Defnyddiwch y rhestr wirio isod i'ch helpu i sicrhau eich bod yn barod i ailagor.

- Rydym wedi cynnal asesiad risg COVID-19 a rhannu'r canlyniadau gyda'r bobl sy'n gweithio yma
- Mae gennym weithdrefnau glanhau, golchi dwylo a hylendid yn unol â'r canllawiau
- Rydym wedi cymryd camau rhesymol i helpu pobl i weithio o adre
- Rydym wedi cymryd pob cam rhesymol i gynnal pellter o 2m yn y gweithle
- Lle na all pobl fod 2m ar wahân, rydym wedi gwneud popeth ymarferol i reoli risg trosglwyddo

## BETH I FEDDWL AMDANO:

### ASESIAD RISG

Mae'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch wedi darparu [canllawiau](#) ar gyfer cyflogwyr wedi ei gynllunio i'ch helpu i wneud eich gwaith a'ch gweithle yn ddiogel (bod yn ddiogel o COVID). Mae'r canllaw yn darparu trosolwg o'r mesurau ymarferol y gallwch gymryd, gan gynnwys help ar sut i gynnal pellter cymdeithasol yn eich gweithle, darwahanu sifftiau, glanhau a sut i siarad â gweithwyr.

### PELLTER CORFFOROL

Mae'r Rheoliadau Coronafeirws yn gosod gofyniad cyfreithiol yn y lle gwaith i gymryd pob cam rhesymol i sicrhau bod pellter o 2 fetr yn cael ei gynnal rhwng pobl ar eu safle - cewch y canllawiau [yma](#) a [yma](#)

### ARWYDDION

Mae [Llywodraeth Cymru](#) a [Busnes Cymru](#) wedi darparu amrywiaeth o adnoddau i helpu cyflogwyr i gadw eu gweithle yn ddiogel. Os ydych yn bwriadu datblygu eich adnoddau eich hun efallai gall tîm [Helo Blod](#) eich helpu gyda chyfieithu i'r Gymraeg am ddim.

### IECHYD Y GWEITHLU

Os fydd unrhyw un yn mynd yn sâl yn y gweithle gyda pheswch parhaol; tymheredd uchel; colli neu newid yn eu synnwyr arogl neu flasau arferol yna dylid eu hanfon adref a'u cynghori i ddilyn y cyngor i aros adre. Am fwy o wybodaeth ewch i wefan [Llywodraeth Cymru](#).

### PRAWF, OLRHAIN A DIOGELU

Mae gan gyflogwyr gyfrifoldeb i helpu gyda [phrawf coronafeirws ac olrhain cyswllt](#).

### OFFER AMDDIFFYN PERSONOL

Ar hyn o bryd, mae cyngor [Llywodraeth y UD](#) yn awgrymu nad yw offer amddiffyn personol ychwanegol tu hwnt i'r hyn rydych yn arfer ei gwisgo o fudd o fewn y gweithle. Er hynny, mae [Iechyd Cyhoeddus Cymru a Llywodraeth Cymru](#) yn cynghori, mewn rhai amgylchiadau lle gall fod yn anodd i gadw 2m i ffwrdd wrth eraill, gall defnyddio gorchuddion wyneb anfeddygol tair haen fod o fudd, yn unol â [chyngor technegol](#) diweddaraf y Sefydliad Iechyd Byd.

## CYFARWYDDIADAU DEFNYDDIOL:

Llywodraeth Cymru: [Busnes a chyflogwyr : coronafeirws](#)

Busnes Cymru: [Covid 19: Cefnogaeth i Fusnes](#)

Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch: [Gweithio'n ofalus yn ystod y coronafeirws \(COVID-19\)](#)

*Nodwch: ni fwriedir i'r wybodaeth yma fod yn gyfeiriadol ei natur ond yn addysgiadol. Nid yw'n cynrychioli cyngor cyfreithiol.*

